*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 16 MEDI 2024** am **09.30**
yn: **Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy** ac yn rhithwir **drwy Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Y diweddaraf ynghylch Archwilio Mewnol**

**7. Y diweddaraf ynghylch Rheoli'r Trysorlys Q1 2024/25**

**8. Y diweddaraf ynghylch y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb**

**9. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

### RHAN II
Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Amserlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**10. Dim**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 17 Mehefin 2024 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx (gadawodd am 10:00) | Prif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro |
| Anne-marie Harrop | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| Angharad Ellis | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| Kate Havard | Archwilio Cymru |
| Kieran Vickery | Archwilio Cymru |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |

**1.0 YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi. Holodd Aelod a fyddai trafodaeth ar eitem 6 yn cael ei chaniatáu yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai, cyn belled nad oedd datganiadau gwleidyddol yn cael eu gwneud.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2024

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024 i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur ymddiheuro na fu unrhyw gynnydd o ran paragraff 15.1, cyfarfod mewn ffordd hybrid, a dweud y byddai'n sicrhau bod hyn yn cael ei roi ar waith yn barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

5.2 O ran eitem 5.1, cadarnhaodd y Trysorydd ei fod wedi siarad â Gweision Sifil yn Llywodraeth Cymru a'i fod yn disgwyl gwybodaeth am y Grant Pensiynau. Gyda'r etholiad yn parhau roedd yn annhebygol y byddai ymateb yn dod i law yn awr nes bod Llywodraeth newydd y DU wedi'i ffurfio a'r ffigwr terfynol wedi'i gytuno. Disgwylid y byddai grant ond nid oedd y swm yn hysbys eto. Mae risg ariannol weddilliol yn parhau ond roedd y dull a ddefnyddiwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb wedi lleihau'r risg hon gymaint â phosibl.

## 6.0 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y papur ar y Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan dynnu sylw at y neges ddiweddar i arweinwyr cynghorau gan Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am dân. Cadarnhaodd y papur hefyd gyhoeddiad diweddar Pwyllgor Craffu Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub", a oedd yn ystyried trefniadau llywodraethu'r sector.

6.2 Roedd y dogfennau hyn yn amlygu i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried materion sy'n berthnasol i'r trefniadau llywodraethu ynghylch y sector tân yng Nghymru.

6.3 Gofynnwyd a fyddai'r Pwyllgor Archwilio yn rhan o unrhyw waith ym maes newidiadau i lywodraethu yn y dyfodol a chadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu bod yn bresennol yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân Llawn ym mis Gorffennaf, ac mai dyma'r cyfle i Aelodau ofyn unrhyw gwestiynau am eu rhan yn y broses.

6.4 Dywedodd Aelod ei fod yn teimlo y byddai arnynt eisiau cyflwyno bwrdd yn seiliedig ar sgiliau a chanddo lai o aelodau, a'i bod yn ymddangos bod rhywfaint o fudd i hyn.

6.5 Mynegodd Aelod arall beth pryder ynghylch symud i ffwrdd oddi wrth fodel democrataidd o Lywodraethu gan y gallai hyn arwain at lai o atebolrwydd ar lefel leol. Teimlent fod y model presennol yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Cynghorau i ddewis y bobl iawn i fod yn aelodau o'r Awdurdod.

6.6 Dywedodd un Aelod arall na fyddai gostyngiad yn nifer yr Aelodau, o reidrwydd, yn datrys y mater ac nad oedd y problemau yn Ne Cymru yn adlewyrchu holl Wasanaethau Tân Cymru.

6.7 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod angen trafod gydag Arweinwyr yng Ngogledd Cymru ac y byddai hi a'r Cadeirydd yn gweithio drwy'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflwyno ei farn ar Lywodraethu i Ysgrifennydd y Cabinet.

6.8 Mynegwyd peth pryder fod y penderfyniad yng Nghaerdydd wedi ei yrru gan y sefyllfa yn y De, ac nad oedd rhai o'r syniadau a fynegwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet yn gynaliadwy.

6.9 Rhoddodd y Swyddog Monitro ychydig o gefndir ynghylch sut yr oedd y Cabinet yn cael ei ffurfio ar lefel leol a theimlai na fyddai llawer o amser i aelod Cabinet fod yn aelod o'r Awdurdod.

**6.10 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; a**

**ii) nodi ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu barn am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.**

## 7.0 CYNLLUN ARCHWILIO ARCHWILIO CYMRU 2024

7.1 Cafodd Kate Havard a Kieran Vickery o Archwilio Cymru eu cyflwyno i'r Aelodau a chafodd Cynllun Archwilio Archwilio Cymru ar gyfer 2024 ei gyflwyno. Diben yr adroddiad hwn oedd cadarnhau Cynllun Archwilio 2024 a oedd yn manylu ar y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol yr Awdurdod. Cadarnhawyd mai dyma'r fersiwn terfynol erbyn hyn.

7.2 Nododd y PSTC MacArthur yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon, a dywedodd fod yr Adran Gyllid wedi gallu llunio'r cyfrifon drafft ar gyfer 2023/24 erbyn diwedd mis Mai. Cadarnhaodd Kate Havard, er mai'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol oedd 30 Tachwedd, y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith mewn pryd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2024. Diolchwyd i'r tîm Cyllid am eu gwaith caled wrth gau'r cyfrifon fis yn gynt na'r disgwyl.

7.3 Cadarnhawyd bod y Cynllun Corfforaethol presennol wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2024; fodd bynnag, roedd y cynllun Rheoli Risg Cymunedol, a oedd eisoes wedi'i gymeradwyo ar ffurf ddrafft, bellach allan ar gyfer ymgynghoriad a byddai'n cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod i'w gadarnhau yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

7.4 Cadarnhaodd Kate Havard y byddai eglurhad ar ba waith archwilio fyddai'n cael ei wneud mewn perthynas â Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

7.5 Nododd y Trysorydd fod cau'r cyfrifon ar amser wedi bod yn ymdrech arwrol, a diolchodd hefyd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled. Nododd ymhellach ei bryder nad oedd pob safon archwilio mor berthnasol i'r sector cyhoeddus â'r sector preifat. Cydnabu Archwilio Cymru y pryder hwn a chadarnhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y dull gweithredu mor berthnasol â phosibl, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol ar yr un pryd. Diolchodd Archwilio Cymru hefyd i'r Tîm Cyllid am gau'r cyfrifon fis yn gynnar.

**7.6 PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**
- **ii) Eglurhad ar y gwaith sydd i'w wneud mewn perthynas â Mesur Gwella 2009 i'w ddarparu i gyfarfod yn y dyfodol.**

## 8.0 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2023/24

8.1 Cyflwynodd Angharad Ellis o’r MIAA bapur Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 a oedd yn nodi, o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system o Reolaeth Fewnol.

8.2 Nododd PSTC MacArthur mai hon oedd blwyddyn gyntaf gwaith yr Awdurdod gyda MIAA ac roedd yn teimlo bod y canfyddiadau'n gymesur ac yn briodol. Diolchwyd i dîm Archwilio MIAA am eu hymdrechion.

8.3 Nododd Aelod mai'r unig ardal risg uchel oedd seiberddiogelwch a chadarnhaodd MIAA nad oedd hyn yn benodol i Ogledd Cymru. Nododd PSTC MacArthur fod hon yn risg gyffredin ar draws y sector cyhoeddus, ei bod yn cael ei monitro'n agos o fewn y Gwasanaeth, a bod cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad yn y maes hwn gan MIAA.

**8.4 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a’r ‘farn’ gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

## 9.0 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

12.1 Cyflwynodd Angharad Ellis o MIAA y papur Diweddariad Archwilio Mewnol, a’i ddiben oedd rhoi diweddariad i’r Aelodau ar y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2024 .

**9.2 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi’r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; a**
**ii) nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r 21 argymhelliad y cytunwyd arnynt.**

## 10.0 ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI’R TRYSORLYS 2023/24

10.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, adroddiad Rheoli’r Trysorlys 2023-24 i’r Aelodau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch rheoli’r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli’r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.

10.2 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael, yn gadael y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin 2024 a diolchwyd iddi am ei holl gymorth, cefnogaeth a gwaith caled dros y blynyddoedd. Dymunodd yr Aelodau a'r swyddogion bob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol.

10.3 Gofynnodd Aelod a fyddai modd talu'r benthyciadau tymor hir yn ôl dros gyfnod byrrach er mwyn arbed llog, ac ymatebodd y Trysorydd y byddai'r costau adbrynu yn rhy uchel i wneud hyn yn opsiwn ymarferol; fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei fonitro gan swyddogion a phe bai cyfle i wneud hyn yn y dyfodol, byddai'n cael ei ystyried.

**10.4 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r gweithgarwch rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024;**

**15.0 MATERION BRYS**

15.1 Nid oedd materion brys i'w trafod.

Dywedodd y PSTC MacArthur wrth yr Aelodau fod Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yr Aelodau a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol wedi bod yn gyfle gwych i ymgysylltu â'r Aelodau ynghylch y broses o bennu'r gyllideb a'i fod wedi bod yn fuddiol iawn. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn parhau dros y chwe mis nesaf a gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent yn teimlo y dylid ymestyn aelodaeth y grŵp. Ar hyn o bryd roedd yn cynnwys un Aelod o bob Awdurdod Lleol.

Cadarnhaodd yr Aelodau fod yr aelodaeth fel ag y mae yn dderbyniol a chadarnhawyd eu bod yn fodlon iddo fwrw ymlaen ar y sail honno, a bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i gadeirio'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.46.

*This document is available in English*

Eitem 7 ar yr Agenda

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 hyd yma.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yn nodi'r diweddaraf o ran y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, hyd at 31 Awst 2024, yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno.

4 Hefyd, ceisir cymeradwyaeth i newid y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 er mwyn iddo gynnwys adolygiad o Gynllun Gweithredu y Strategaeth Hyfforddiant.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; ac yn
ii. Cymeradwyo'r cais gan y rheolwyr i gynnwys adolygiad o Gynllun Gweithredu y Strategaeth Hyfforddiant o fewn rhaglen waith 2024/25.

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol

ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu'r Datganiad Rheoli Mewnol am ganfyddiadau'r archwiliad yn flynyddol.

8 Penodwyd MIAA gan yr Awdurdod i fod yn archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2024.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 hyd at 31 Awst 2024. Mae hyn yn cadarnhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun.

10 Mae'r adolygiad o'r System Gaffael wedi cadarnhau bod sicrwydd sylweddol, a gwnaed tri argymhelliad ar gyfer gwelliannau pellach. Mae adroddiad manwl sy'n ymwneud â'r archwiliad hwn wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

11 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y cais a wnaed i newid y cynllun archwilio mewn perthynas â'r systemau hynny nad ydynt yn rhai ariannol. Roedd y cynllun cychwynnol yn cynnwys adolygiad o system y rhestr ddyletswyddau ar gyfer gweithwyr amser cyflawn, ond gan y bu oedi wrth weithredu system newydd mae cais wedi'i wneud i symud hyn i gynllun yn y dyfodol. Mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, gofynnir am gymeradwyaeth i gynnwys Cynllun Gweithredu y Strategaeth Hyfforddiant.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol a reolir yn gywir yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod y taliadau yn unol â pholisïau a dulliau y cytunwyd arnynt. |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Rydym yn darparu adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Mehefin 2024 i 31 Awst 2024.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| **Adolygiadau Archwilio 2024/25** |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• Caffael (Sicrwydd Sylweddol)<br>Ar y cyfan, nododd yr adolygiad fod mesurau rheoli wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n effeithiol, gan nodi rhai meysydd i'w gwella. Nododd profion MIAA o sampl o archebion prynu a chontractau fod gweithgarwch caffael wedi'i gefnogi gan archebion prynu a chontractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn unol â'r gweithdrefnau ariannol a bod y rhain wedi'u cymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) presennol a therfynau awdurdodi a sefydlwyd o fewn y system brosesu cyllid. Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad nifer o feysydd lle gellir gwella eto ar yr amgylchedd rheoli sydd yn ei le.  Roedd y rhain yn ymwneud â gwella'r gofrestr contractau er mwyn cynorthwyo i fonitro contractau, cadw dogfennau i gefnogi'r adolygiad o ddilysiad contractau ac awtomeiddio awdurdodi contractau.<br>Mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys ar wahân ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio.<br>Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:<br>• Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi (Cynllunio)<br>• Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu Ariannol (pan yn ofynnol) |

## Camau dilynol

Mae ein gwaith dilynol ar y gweill.

## Newidiadau i’r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gwreiddiol ac fe’u hamlygir ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

- Mae'r Tîm Gweithredol wedi gofyn am ddileu’r adolygiad o’r System Amserlennu / Dyletswydd Amser Cyfan a'i ddisodli gydag adolygiad o Gynllun Gweithredu’r Strategaeth Hyfforddiant.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Ym mis Ionawr cyhoeddodd y Sefydliad Archwilwyr Mewnol Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) diwygiedig.

Mae’r Gosodwyr Safonau Archwiliadau Mewnol Perthnasol (RIASS) ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU wedi cytuno i ddefnyddio'r GIAS newydd fel sail ar gyfer archwilio mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU ac wedi gofyn i Fwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU (IASAB) gynnal adolygiad o'r safonau newydd gyda'r bwriad o nodi a chynhyrchu unrhyw ddehongliadau penodol i'r sector neu unrhyw ddeunydd arall sydd eu hangen i'w gwneud yn addas ar gyfer eu defnyddio yn sector cyhoeddus y DU.

Y dyddiad gweithredu ar gyfer y safonau newydd yn sector cyhoeddus y DU fydd 1 Ebrill 2025. Tan hynny, bydd Safonau Archwilio Mewnol presennol y Sector Cyhoeddus yn parhau i fod yn berthnasol.

Pan fydd yr IASAB yn cyhoeddi deunydd i'w ddefnyddio yn sector cyhoeddus y DU, bydd MIAA yn ei adolygu ac yn diwygio ein prosesau os oes angen er mwyn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â’r safonau.

Gellir gweld y diweddaraf gan IASAB trwy'r ddolen ganlynol: https://www.iasab.org/latest-news

## Gwerth Ychwanegol

### Digwyddiadau

- How to Lead in a Hybrid World (16 Hydref 2024): Awgrymwyd mai'r her fwyaf i bobl sy'n gweithio'n hybrid yw'r "Diffyg sgyrsiau achlysurol. Mae'r Dosbarth Meistr hwn yn archwilio'r ffyrdd y gall sefydliadau helpu i greu ysbryd a diwylliant tîm a chefnogi arweinwyr i arwain tîm yn effeithiol gyda phobl sydd ddim yn yr ystafell."

- Evidence Based Working (22 Tachwedd 2024): Sut gall Dull Gwell sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth Gefnogi Llywodraeth Leol i Wynebu ei Heriau? Bydd Rob Brinan, Athro Seicoleg Sefydliadol yn yr Ysgol Busnes a Rheolaeth, yn ymuno â ni i archwilio'r hyn rydyn ni'n ei wybod am y ffordd mae llywodraeth leol yn ymateb i sefyllfaoedd, a sut y gallai dull sy'n gwneud mwy o ddefnydd o dystiolaeth wella ymarfer.

Mae'r digwyddiadau yn rhad ac am ddim i bob cleient a gellir archebu lle drwy glicio ar y ddolen uchod neu drwy fynd i'n gwefan www.miaa.nhs.uk a chlicio ar Events.

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan bod 'Rhaid i'r prif swyddog archwilio gweithredol roi ei farn, neu ei barn, a darparu adroddiad blynyddol ynghylch archwilio mewnol fel y gall y sefydliad eu defnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu.'

Mae'r tabl yn crynhoi'r Farn a gyflwynodd eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25:

| **Maes Barn y Pennaeth Archwilio** | **Cytuno ar TOR** | **Statws** | **Lefel Sicrwydd** | **Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risgiau | | Cyflawni C4 | | Mawrth 2025 |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | ✓ | Cynllunio | | Rhagfyr 2024 |
| Systemau Ariannol Allweddol | | Cyflawni C3 | | Mawrth 2025 |
| Caffael | ✓ | Wedi'i gwblhau | Sylweddol | Medi 2024 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu Ariannol | Amh. | Yn ôl yr angen | | Amh. |
| Camau Dilynol | | | | |
| C1 | Amh. | Wedi'i gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |
| C4 | Amh. | Cyflawni C4 | | Mehefin 2025 |

Os nad ydyn ni'n gallu sicrhau digon o ddyfnder neu gwmpas oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi rhybudd o hyn gyda'r farn ac egluro'i effaith a beth fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol..

# Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Prif fesur perfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Pa mor aml y rhoddir Adroddiad | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyflwyno Holiadur Boddhad i Gleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunir arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys ac amrywiol iawn sy'n cynnwys 75% o staff cymwysedig. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiad MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

# Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r mesurau rheolaeth yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygir. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i fodloni amcanion y system, ac mae'r mesurau rheolaeth yn cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol, fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a / neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau mewn rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â mesurau rheolaeth wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi, neu sy'n debygol o gael, effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendidau rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau


Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn camau rheoli mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi, nac wedi ei fwriadu, ar gyfer unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

### Anne-marie Harrop

### Angharad Ellis

| Barn Gyffredinol ynghylch Sicrwydd | |
|---|---|
| <br> | |

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Canfyddiadau a Chamau Gweithredu ar gyfer Rheolwyr

Atodiad A: Canfyddiadau Manwl

Atodiad B: Cwmpas yr Ymgysylltu

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

Atodiad D: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

Hoffai MIAA ddiolch i'r holl staff am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gwblhau'r adolygiad hwn.

Mae'r adroddiad wedi'i baratoi fel y'i comisiynwyd gan y sefydliad, ac mae at eich defnydd chi yn unig. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu. I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

## 1 Crynodeb Gweithredol

Amcan Cyffredinol yr Archwiliad: Amcan cyffredinol yr archwiliad oedd gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau caffael a oedd ar waith gan gynnwys defnyddio tendrau a hepgoriadau.

Cyfyngiadau'r Cwmpas: Roedd cwmpas yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr amcanion a ddisgrifir yn Atodiad B ac yn gyfyngedig i'r rheolaethau a oedd ar waith yn y sefydliad.

### Canfyddiadau Allweddol/Casgliad

Ar y cyfan, nododd yr adolygiad fod y rheolaethau wedi'u cynllunio'n effeithiol a'u bod yn gweithredu'n effeithiol, gan nodi rhai meysydd i'w gwella. Roedd y prif feysydd arfer da yn ymwneud â'r polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith mewn perthynas â chaffael, a gwelwyd bod y rhain yn cyd-fynd â'r gofynion rheoleiddiol.

Nododd profion MIAA ar sampl o archebion prynu a chontractau fod gweithgarwch caffael wedi'i gefnogi gan archebion prynu a chontractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn unol â gweithdrefnau ariannol a bod y rhain wedi'u cymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) presennol a therfynau awdurdodi a sefydlwyd o fewn y system prosesu cyllid.

Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad nifer o feysydd lle gellir gwella eto ar yr amgylchedd rheoli sydd ar waith. Roedd y rhain yn ymwneud â gwella'r gofrestr o gontractau i gynorthwyo i fonitro contractau, cadw dogfennau i gefnogi'r adolygiad o ddilysu contractau ac awtomeiddio awdurdodi contractau.

| Amcanion a Adolygwyd | Sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd |
|---|---|
| Polisïau a Gweithdrefnau | Gwyrdd |
| Archebion a Chymeradwyaeth | Gwyrdd |
| Contractau a Monitro | Ambr |
| Cofrestr / Cronfa Ddata Contractau | Ambr |
| Prosesau Tendro | Ambr |
| Hepgoriadau Tendr | Gwyrdd |
| **Sgôr Sicrwydd Cyffredinol** | **Sylweddol** |

| Argymhellion | | |
|---|---|---|
| Sgôr Risg | Dyluniad y Rheolaethau | Effeithiolrwydd Gweithredu |
| Critigol | 0 | 0 |
| Uchel | 0 | 0 |
| Canolig | 0 | 2 |
| Isel | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **2** |

## Meysydd Arferion Da

- Mae gan y Gwasanaeth nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n ymdrin â'r prosesau caffael gofynnol i'w dilyn, a chanfuwyd eu bod yn gyfredol ac ar gael i'r holl staff ar fewnrwyd Hwb Tân ac ar y wefan allanol.
- Cadarnhaodd profion archwilio fod archebion a chontractau wedi'u codi ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn unol â gweithdrefnau ariannol a'u bod wedi'u cymeradwyo yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD).
- Mae’r terfynau awdurdodi ar gyfer archebion prynu wedi’u sefydlu o fewn yr hierarchaeth gymeradwyo a gynhelir o fewn y system prosesu cyllid Technology One (TechOne) sy’n sicrhau bod dyletswyddau’n cael eu gwahanu’n ddigonol rhwng yr ymgeisiwr a’r cymeradwywr.
- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu gwiriadau dilysu digonol ar gyfer contractau newydd fel rhan o'r broses dendro.
- Lle mae gofynion tendro wedi'u hepgor, roedd llwybrau archwilio cadarn ar waith i gadarnhau bod proses gwneud penderfyniadau dryloyw wedi'i dilyn a oedd wedi'i hawdurdodi a'i hadrodd yn briodol.

| Canfyddiadau Allweddol - Materion a Nodwyd | |
|---|---|
| Canolig | 1.1 Nododd adolygiad archwilio o'r gofrestr contractau, er bod dyddiadau dechrau a gorffen y contract wedi'u cofnodi, nad oedd cofnod o bryd na pha mor aml y dylid adolygu a monitro'r contract, na'r fforwm y dylid cynnal hyn ynddo.<br>1.2 Amlygodd profion ar sampl o 10 contract a thendr nad oedd tystiolaeth ar gael, ar gyfer un contract, i gadarnhau bod gwiriadau dilysu priodol wedi’u cwblhau a bod y broses dendro wedi’i chynnal yn unol â gweithdrefn rheolau’r Weithdrefn Gontract. Yn ogystal, ni allem gadarnhau a oedd y cyflenwr wedi'i fonitro i sicrhau ansawdd eu nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd. |
| Isel | 1.3 Nodwyd bod yr holl weithgarwch caffael sydd angen archeb brynu yn cael ei wneud gan ddefnyddio TechOne. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad roedd y broses ar gyfer awdurdodi contractau yn ddibynnol iawn ar gofrestr â llaw ac o ganlyniad, rheolaethau awdurdodi anawtomataidd. |

# 2 Canfyddiadau a Chamau Gweithredu ar gyfer Rheolwyr

<table>
<tr><td colspan="2">1. Cofrestr contractau a monitro</td><td>Sgôr Risg: Canolig</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiolrwydd Gweithredu</td></tr>
<tr><td>Canfyddiad Allweddol - Nododd adolygiad archwilio o'r gofrestr contractau, er bod dyddiadau dechrau a gorffen y contract wedi'u cofnodi, nad oedd cofnod o bryd na pha mor aml y dylid adolygu a monitro'r contract, na'r fforwm y dylid cynnal hyn ynddo.</td><td>Risg Benodol - Mae'n bosibl na fydd contractau'n cael eu monitro neu eu hadolygu'n briodol.</td><td>Argymhelliad - Dylid diweddaru'r gofrestr contractau i gynnwys y dyddiad adolygu a'r fforwm ar gyfer adolygu a monitro'r contract.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb gan Reolwyr - Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r modiwlau Contractau a Chyrchu o fewn y System Ariannol (TechOne) ac mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei weithredu o fewn y system. Bydd hyn yn sbarduno dyddiadau adolygu ac yn rhybuddio arweinydd y contract a’r Rheolwr Caffael a Chontractau bod angen cynnal adolygiad.<br><br>Mae'r Rheolwr Caffael a Chontractau yn cyfarfod ag adrannau'n rheolaidd ar hyn o bryd ac mae wedi datblygu llif prosiectau caffael sy'n cynnwys dyddiadau adolygu. Bydd y gofrestr contractau a’r gofrestr llif prosiectau yn cael eu cynnal hyd nes y bydd y Modiwlau Contractau a Chyrchu yn gwbl weithredol.<br><br>Swyddog Cyfrifol – Rheolwr Caffael a Chontractau / Penaethiaid Adran<br><br>Dyddiad Gweithredu – Ebrill 2025</td><td>Tystiolaeth i gadarnhau gweithrediad – Cofrestr contractau wedi'i diweddaru</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">2. Prosesau dilysu</td><td>Sgôr Risg: Canolig</td></tr>
<tr><td colspan="3">Effeithiolrwydd Gweithredu</td></tr>
<tr><td>Canfyddiad Allweddol - Amlygodd profion ar sampl o 10 contract a thendr nad oedd tystiolaeth ar gael ar gyfer un contract i gadarnhau bod gwiriadau dilysu priodol wedi’u cwblhau a bod y broses dendro wedi’i chynnal yn unol â gweithdrefn rheolau’r Weithdrefn Gontract.  Yn ogystal, ni allem gadarnhau a oedd y cyflenwr wedi'i fonitro i sicrhau ansawdd eu nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarparwyd.</td><td>Risg Benodol – Mae cyflenwyr amhriodol yn cael eu defnyddio, gyda risgiau i enw da'r Gwasanaeth.<br><br>Diffyg cydymffurfio â gweithdrefnau sydd wedi'u dogfennu a'u cymeradwyo, torri arferion gorau a methiant i gyflawni’r gwerth gorau.</td><td>Argymhelliad - Dylai’r Gwasanaeth sicrhau bod y pethau canlynol yn cael eu cadw’n ganolog ar gyfer pob contract:<br><br>• Tystiolaeth o wiriadau dilysu contract a gynhaliwyd;<br>• Tystiolaeth o'r broses dendro a ddilynwyd; a,<br>• Tystiolaeth o drefniadau monitro'r cyflenwyr i sicrhau ansawdd y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb gan Reolwyr - Mae tîm Caffael Heddlu Gogledd Cymru (drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth) wedi ymgymryd â chontractau hanesyddol. Yn awr bod gan GTAGC swyddog penodedig a bod prosesau caffael bellach yn cael eu cynnal yn fewnol, ni fydd contractau'n symud ymlaen nes bod yr holl ddogfennaeth/tystiolaeth wedi'u cwblhau, a'r holl brosesau wedi'u dilyn yn gywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda'r newid rheoleiddiol sydd ar ddod.<br><br>Bydd y Rheolwr Caffael a Chontractau yn parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod gan GTAGC fynediad at gofnodion priodol (mae’r trosglwyddo yn dal i fynd rhagddo).<br><br>Bydd y Rheolwr Caffael a Chontractau yn cefnogi rheolwyr contractau i fonitro ac adolygu contractau (dim trefniadau ar waith yn flaenorol)<br><br>Swyddog Cyfrifol – Rheolwr Caffael a Chontractau / Pennaeth Cyllid a Chaffael<br><br>Dyddiad Gweithredu – Rhagfyr 2024</td><td>Tystiolaeth i gadarnhau gweithrediad – Tystiolaeth o wiriadau dilysu, proses dendro a threfniadau monitro’r contract.</td></tr>
</table>

| 3. **Proses â llaw ar gyfer contractau** | | **Sgôr Risg: Isel** |
|---|---|---|
| Dyluniad y Rheolaethau | | |
| **Canfyddiad Allweddol** - Nodwyd bod yr holl weithgarwch caffael sydd angen archeb brynu yn cael ei wneud gan ddefnyddio TechOne. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad roedd y broses ar gyfer awdurdodi contractau yn ddibynnol iawn ar gofrestr â llaw ac, o ganlyniad, rheolaethau awdurdodi anawtomataidd. | **Risg Benodol** - Gall diffyg gwiriadau cydymffurfio awtomataidd arwain at fethu achosion o beidio â chydymffurfio. | **Argymhelliad** - Dylid adolygu’r diffyg rheolaeth awdurdodi awtomataidd ar gyfer gwariant caffael contractau gyda’r bwriad o ymgorffori contractau yn TechOne. |
| **Ymateb gan Reolwyr** - Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r modiwlau Contractau a Chyrchu o fewn y System Ariannol (TechOne), ond nid oes unrhyw newid arfaethedig i'r awdurdodiadau/cynllun dirprwyo. Hyd nes y caiff hyn ei ddatblygu, ei brofi a'i roi ar waith, bydd GTAGC yn parhau i ddefnyddio'r daenlen gyfredol i fonitro gweithgarwch caffael.<br><br>Yn awr bod gan GTAGC swyddog penodedig, ni fydd contractau'n symud ymlaen nes bod yr holl ddogfennaeth/tystiolaeth wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan y swyddog priodol. Bydd y Rheolwr Caffael a Chontractau yn parhau i gefnogi adrannau'n llawn drwy'r broses gaffael gyfan.<br><br>Swyddog Cyfrifol – Rheolwr Caffael a Chontractau / Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br><br>Dyddiad Gweithredu – Ebrill 2025 | | Tystiolaeth i gadarnhau gweithrediad – TechOne. |

# Atodiad A - Canfyddiadau Manwl

## Amcan Un: Polisïau a Gweithdrefnau

Canfu ein hadolygiad fod polisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â chaffael. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau'r Weithdrefn Gontractau dyddiedig Tachwedd 2021 (a oedd i'w hadolygu ym mis Tachwedd 2024) a'r Rheoliadau Ariannol dyddiedig Mawrth 2022 (a oedd i'w hadolygu ym mis Mawrth 2025).

Roedd y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) a'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2023 hefyd yn darparu canllawiau yn ymwneud â chaffael, tendrau a hepgoriadau. Roedd y Rheoliadau Ariannol Sefydlog (SFRs) ar waith, ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau staff priodol. Ategwyd hyn gan hierarchaeth cymeradwyo gweithwyr a gynhelir o fewn TechOne i sicrhau y cydymffurfir â therfynau awdurdodi ar gyfer archebion prynu.

Canfuwyd bod polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â Chyfarwyddebau Caffael yr UE. Cadarnhaodd adolygiad MIAA fod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chaffael ar gael i'r holl staff ar fewnrwyd Hwb Tân a'r wefan allanol.

Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio gyda manylion cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol y Gwasanaeth ar gyfer 2023/24. Amlygodd adolygiad MIAA o adroddiad 2023/24 a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2024 fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad priodol i'r Pwyllgor Archwilio ar gydymffurfiaeth reoleiddiol ym maes caffael gan gynnwys manylion yr hepgoriadau a gymeradwywyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn. Nodwyd hefyd bod Adroddiad Cydymffurfiaeth Ariannol 2023/24 hefyd wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Monitro'r Gyllideb a Pherfformiad cyn hyn.

## Amcan Dau: Archebion a Chymeradwyaeth

Cadarnhaodd adolygiad MIAA fod gweithgarwch caffael sy'n gofyn am archeb brynu yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio system TechOne sy'n cynnwys terfynau awdurdodi hierarchaeth defnyddwyr system a chymeradwyaeth awtomataidd fel rhan o gyfrifoldeb defnyddwyr am reoli archebion prynu.

Amlygodd adolygiad MIAA o sampl o 10 archeb brynu ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a godwyd ers mis Ebrill 2023 fod cymeradwyaeth wedi'i darparu ym mhob achos yn unol â therfynau awdurdodi'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) a TechOne, gyda gwahaniad digonol o ddyletswyddau ar waith.

## Amcan Tri: Contractau a Monitro

Nodwyd bod gwiriadau dilysu yn cael eu cynnal ar gontractau newydd fel rhan o'r broses dendro a bod cyflenwyr yn cael eu hadolygu i gadarnhau ansawdd eu nwyddau a'u gwasanaethau.

Nodwyd bod yr holl weithgarwch caffael sydd angen archeb brynu yn cael ei wneud gan ddefnyddio TechOne. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad roedd y broses ar gyfer awdurdodi contractau yn ddibynnol ar gofrestr â llaw a rheolaethau awdurdodi anawtomataidd. ***(Argymhelliad Risg Isel 3)***

Argymhellir hefyd y dylid gwella'r gofrestr contractau i gefnogi'r Gwasanaeth wrth iddo ddilysu a monitro contractau newydd (gweler rhagor o fanylion isod). ***(Argymhelliad Risg Canolig 1)***

## Amcan Pedwar: Cofrestr/Cronfa Ddata Contractau

Dangosodd adolygiad MIAA fod cofrestr contractau gyfredol (o fis Mehefin 2024) ar waith sy'n nodi'r contractau cyfredol sydd ar waith gan nodi cyfanswm y gyllideb, costau blynyddol, hyd y contract a dyddiadau dechrau a gorffen y contract.

Mae’r gofrestr contractau yn manylu ar y math o broses dendro a ddilynwyd e.e. ar gyfer contractau Fframwaith sy’n caniatáu archeb yn ôl y gofyn neu lle mae ymarferiad tendro bach wedi’i gynnal yn unol â thelerau’r cytundeb.  Fodd bynnag, argymhellir y dylid gwella'r gofrestr contractau i gynnwys y dyddiad adolygu a'r fforwm ar gyfer adolygu a monitro'r contract. ***(Argymhelliad Risg Canolig 1)***

Canfu adolygiad MIAA o sampl o 10 contract yn dilyn ymarfer tendro nad oedd y contract ar gael i’w adolygu mewn un achos er mwyn sicrhau bod gwiriadau dilysu priodol wedi’u cynnal ar y contract a bod y cyflenwr wedi'i fonitro am ansawdd ei nwyddau a'i wasanaethau. ***(Argymhelliad Risg Canolig 2)***

## Amcan Pump: Prosesau tendro

Mae gan y Gwasanaeth weithdrefn gyfredol (sydd wedi'i chynnwys yng ngweithdrefn rheolau'r Weithdrefn Gontractau) y mae'n ofynnol ei dilyn ar gyfer pob tendr. Gwelsom fod angen dilyn proses cynllunio busnes cyn cynnal ymarferiad caffael. Mae'r broses hon yn cynnwys cynnal ymarfer cwmpasu priodol ar y gofynion nwyddau/gwasanaeth, gan sicrhau bod cyllideb gymeradwy ar gyfer gwariant o'r fath a bod y llwybr i'r farchnad yn cydymffurfio â'r rheolau gweithdrefn.

Mewn profion MIAA ar sampl o 10 tendr, amlygwyd mewn 9 achos bod tystiolaeth ar gael i nodi natur a/neu faint y nwyddau, gwaith neu wasanaethau oedd eu hangen ac unrhyw gontract neu brisiau y cytunwyd arnynt. Yn y 9 achos hyn, roedd dyfynbrisiau/amcangyfrifon perthnasol wedi'u llwytho i'r system brynu yn manylu ar gyfeirnod y contract neu'r fframwaith a chytunwyd ar derfyn cyllidebol i bob un.  Yn yr achosion hyn, fe wnaethom gadarnhau bod y prosesau tendro yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD) a rheoliadau eraill. ***Gweler Argymhelliad Risg Canolig 2*** ar gyfer yr achos sy'n weddill, lle nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd proses dendro ffurfiol wedi'i dilyn.

Nododd adolygiad MIAA fod y prosesau tendro yn cydymffurfio â’r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD), gweithdrefnau ariannol a rheoliadau eraill a, lle bo’n berthnasol, roedd tystiolaeth briodol wedi’i chadw i ddangos cydymffurfiaeth.

## Amcan Chwech: Hepgoriadau tendr

Mae rheolau’r Weithdrefn Gontractau yn caniatáu i Gontractau (ac eithrio’r rhai a nodir) geisio eithriad (hepgoriad tendr) rhag gweithredu’r rheolau gweithdrefn contractau mewn amgylchiadau eithriadol.

Amlygodd adolygiad MIAA o sampl o hepgoriadau tendr (a gynhaliwyd yn 2023/24), lle’r oedd gofynion tendro wedi’u hepgor, bod trywydd archwilio llawn ar gael a oedd yn dangos proses gwneud penderfyniadau dryloyw yn manylu ar y rheswm dros hepgor.

Roedd yr hepgoriadau a samplwyd (cyfanswm o £656,971) yn dangos bod pob un wedi'i awdurdodi'n briodol (gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Cyllid a Chaffael) yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD).

Yn ystod yr adolygiad nodwyd mai dim ond nifer fechan iawn o hepgoriadau tendr yr oedd y Gwasanaeth wedi’u cyflawni, gyda 7 o hepgoriadau tendr wedi'u cymeradwyo yn ystod 2023/24 â gwerth o ran contract o £742,562.

Nododd adolygiad MIAA o bapurau fod hepgoriadau tendr wedi'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2024 fel rhan o Adroddiad Cydymffurfiaeth Ariannol ehangach (blwyddyn lawn 2023-24) a ddarperir yn flynyddol.

Mae'r defnydd o hepgoriadau tendr yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Monitro’r Gyllideb a Pherfformiad, sy'n cyfarfod bob chwarter.  Darperir diweddariad ar gydymffurfiaeth â’r broses hepgor fel rhan o'r adroddiad cydymffurfio â’r rheoliadau ariannol (gweithdrefn gaffael).  Yng nghyfarfod

mis Mai 2024, roedd data yn ymwneud â Chwarter 1 (Ebrill i Fehefin) 2024/25 wedi'i adrodd a'i drafod.

## Atodiad B: Cwmpas yr Ymgysylltu

### Cwmpas

Amcan cyffredinol yr archwiliad oedd gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau caffael a oedd ar waith, gan gynnwys y defnydd o dendrau a hepgoriadau.

Ystyriwyd yr is-amcanion canlynol:

- Effeithiolrwydd y Polisïau a'r Gweithdrefnau caffael sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r UE a gofynion ac arferion cadarn eraill. Sicrhau bod polisi ac arweiniad ar gael i'r holl staff priodol.
- Codir archebion am yr holl nwyddau a gwasanaethau yn unol â'r gweithdrefnau ariannol ac fe'u cymeradwyir yn unol â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol a therfynau awdurdodi.
- Cynhelir gwiriadau dilysu priodol ar gontractau newydd a chaiff cyflenwyr eu monitro am ansawdd eu nwyddau a'u gwasanaethau.
- Mae cofrestr/cronfa ddata Contractau gadarn ar waith sy'n cynnwys yr holl gontractau sydd ar waith gan nodi dyddiad adolygu'r contractau.
- Mae prosesau tendro yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol, gweithdrefnau ariannol a rheoliadau eraill a, lle bo'n berthnasol, cedwir tystiolaeth briodol i ddangos cydymffurfiaeth.
- Lle mae gofynion tendro wedi'u hepgor, mae trywydd archwilio llawn ar waith sy'n dangos proses gwneud penderfyniadau dryloyw sydd wedi'i hawdurdodi'n briodol ac yr adroddwyd arni'n briodol.

Dyma gyfyngiadau'r cwmpas: Roedd cwmpas yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr amcanion a ddisgrifir yn Atodiad B ac yn gyfyngedig i'r rheolaethau a oedd ar waith yn y sefydliad.

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw'r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn nwylo'r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau o ran rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae'n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn brydlon er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

## Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i fodloni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau yn cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu weithredu rheolaethau yn anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a / neu weithredu rheolaethau yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau mewn rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Atodiad D: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Katie Owen | Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael |
| Jack Millward | Rheolwr Caffael a Chontractau |

**Ann Ellis**

**Andrew McKenzie**

**Cyfyngiadau**

**Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus**

*This document is available in English* **Eitem Agenda**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** | |
| Dyddiad | **16 Medi 2024** | |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** | |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard** | |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch1 2024/25** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2024 – 30 Mehefin 2024.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003 mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer *Treasury Management in the Public Services (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, fan lleiaf, adroddiadau alldro blynyddol ac adroddiadau hanner blwyddyn ynghylch rheoli trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2024. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i. nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill - 30 Mehefin 2024.

## CYD-DESTUN ALLANOL

6 Parhaodd prif gyfradd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) y DU i ostwng dros y chwarter, gan gwympo o gyfradd flynyddol o 3.2% ym mis Mawrth i 2% ym mis Mai, yn unol â tharged Banc Lloegr. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, dim ond o 4.2% i 3.5% y gostyngodd y mesur craidd chwyddiant, a oedd, ynghyd â chwyddiant prisiau gwasanaethau a oedd yn ystyfnig o uchel ar 5.7% ym mis Mai, wedi helpu i gyfrannu at gadw Cyfradd Banc Lloegr ar 5.25% yn ystod y cyfnod, lefel sydd heb newid ers Awst 2023.

7 Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr ym mis Mehefin 2024 i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25%.

8 Ar 31 Gorffennaf, gostyngwyd y Gyfradd Sylfaenol .25% i 5%. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng ymhellach yn ystod ail chwarter 2024 a 2025. Ystyrir bod y risgiau dros y tymor canolig ar yr ochr orau oherwydd er bod chwyddiant wedi gostwng i'r targed, disgwylir iddo godi yn ddiweddarach yn y flwyddyn a chan fod chwyddiant prisiau gwasanaethau a thwf cyflogau yn dal i fod yn gadarnach, gallai'r MPC ohirio gostyngiadau pellach.

## CYD-DESTUN LLEOL

9 Ar 31 Mawrth 2024, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £14.82m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

10 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

11 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **30.06.24 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 27.94 | 28.08 |
| Benthyca allanol | -17.78 | -17.76 |
| **Benthyca mewnol** | **10.16** | **10.32** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.13 | -13.57 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.97 | 3.25 |

| | | |
|---|---|---|
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

12 Mae'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 30 Mehefin a'r newid dros y chwarter yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.24 Balans £m | Symudiad £m | 30.6.24 Balans £m | 30.6.24 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca hirdymor (PWLB) | 14.07 | 0 | 14.07 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 3.71 | -0.02 | 3.69 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **-0.02** | **17.76** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | -1.48 | 1.48 | 0.00 | 5.19-5.38 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -1.48 | -1.77 | -3.25 | 4.65- 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.96** | **-0.29** | **-3.25** | |
| **Benthyciad net** | **14.82** | **-0.31** | **14.51** | |

## BENTHYCA

13 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

14 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

15 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau, pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid, yn amcan eilaidd. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

16 Er bod cost benthyca tymor byr gan yr awdurdodau lleol eraill wedi cynyddu i oddeutu 7% ar ddiwedd mis Mawrth 2024, yn bennaf oherwydd prinder gweithgarwch benthyca ALI-ALI yn ystod y mis, yn ôl y disgwyl dychwelodd cyfraddau tymor byrrach i ystod fwy arferol ac yn gyffredinol roeddent tua 5.25% drwy gydol y chwarter.

17 Cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd oedd 4.8% ar ddechrau'r chwarter a 4.96% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd ar gael yn ystod y chwarter oedd 4.80%, a'r uchaf oedd 5.18%. Roedd y cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.24% i 5.57% yn ystod y chwarter, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd yn amrywio rhwng 5.06% a 5.40%.

18 Ar 30 Mehefin roedd gan yr Awdurdod £17.76m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.02m ers 31 Mawrth 2024, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a'r flwyddyn bresennol. Crynhoir y benthyciadau oedd yn weddill ar 30 Mehefin yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | **31.3.24 Balans £m** | **Symudiad Net £m** | **30.6.24 Balans £m** | **30.6.24 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli %** | **30.6.24 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 17.78 | -0.02 | 17.76 | 2.76 | 5.98 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **-0.02** | **17.76** | | |

19 Disodlodd yr Awdurdod ei fenthyciadau tymor byr yn 2023/24 ac ar 31 Mawrth 2024 nid oedd ganddo fenthyciadau tymor byr mwyach.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | **Swm £m** | **Cyfradd %** | **Cyfnod (Blynyddoedd)** |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 28 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.65 | 3.09 | 13 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.72 | 3.91 | 17 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **7.37** | | |

20 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

21 Yn ystod 2023/24, ad-dalwyd dau fenthyciad marchnad tymor byr gwerth cyfanswm o £6m. Disodlwyd £3m gan fenthyciad PWLB tymor hir, a gymerwyd yn 2022/23, yn dilyn cyngor gan Arlingclose, ein hymgynghorwyr rheoli trysorlys, a gwnaed hynny pan oedd cyfraddau llog yn ffafriol, ac ariannwyd £3m o fenthyca mewnol, oherwydd yr oedi yn y pryniant tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan felly ohirio'r angen i fenthyca nes bod y pryniant tir wedi'i gwblhau.

## GWEITHGARWCH BUDDSODDI TRYSORLYS

22 Cyhoeddodd CIPFA fersiynau diwygiedig o'r Cod Ymarfer ar Reoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y chwarter, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £2.96m a £3.25m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Y Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.24<br>Balans<br>£m | Ch1<br>Symudiad Net<br>£m | 31.6.24<br>Balans<br>£m | 30.6.24<br>Adenillion Incwm<br>% | 30.6.24<br>Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli<br>dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 1.48 | 1.77 | 3.25 | 4.65-5.14 | ar alwad |
| Llywodraeth Ganolog | 1.48 | -1.48 | 0.00 | 5.19 | 7 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.96** | **0.29** | **3.25** | | |

24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

25 Fel y mae'r meincnod atebolrwydd yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

26 Arhosodd Cyfraddau Banc ar 5.25% drwy'r chwarter gyda chyfraddau llog tymor byr, i raddau helaeth, o gwmpas y lefel hon. Y cyfraddau ar adneuon DMADF yn ystod y chwarter oedd 5.19%.

## CYDYMFFURFIAETH

27 Mae'r Trysorydd yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod. Mae gan y Gwasanaeth ddau gyfrif galwad a ddefnyddir i osod adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Roedd y cyfraddau llog a oedd yn cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn sylweddol uwch gyda Banc Lloyds ac felly er mwyn cael yr adenillion gorau mae'r holl adneuon wedi eu gosod gyda nhw.

28 Er mwyn helpu i liniaru hyn yn y dyfodol, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cais am Gyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) gan fod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn caniatáu ar gyfer gosod arian diderfyn gyda'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.06.24 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | **£3.25m** | do |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **0** | do |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | do |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | do |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | **30.6.24 Gwirioneddol £m** | **2024/25 Ffin Weithredol £m** | **2024/25 Terfyn Awdurdodedig £m** | **Wedi Cydymffurfio?** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 17.76 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm y ddyled** | **17.76** | **28.99** | **30.99** | |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd adegau pan fydd y benthyca gwirioneddol yn uwch na'r targed hwn. Gallai hyn fod oherwydd amrywiadau mewn llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

### Meincnod Atebolrwydd


33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | 31.3.24 Gwirioneddol £m | 30.06.24 Gwirioneddol £m | 31.3.25 Rhagolwg £m | 31.3.26 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf Benthyciadau | 27.94 | 28.08 | 35.10 | 40.30 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.12 | -13.57 | -19.70 | -16.20 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 14.82 | 14.51 | 15.40 | 24.10 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **16.82** | **16.51** | **17.40** | **26.10** |
| **Benthyciadau presennol** | **-17.78** | **-17.76** | **-14.10** | **-8.50** |

35 Nid yw'r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan nad yw'r Awdurdod wedi cytuno ar hyn eto.

36 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio yr ariannir gwariant cyfalaf drwy fenthyca £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26, cynnydd o [2.5]% y flwyddyn oherwydd chwyddiant yn yr isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant, a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod.



37 Mae'r graff yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl y bydd angen benthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

38 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.

### Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

39 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 30.6.24 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Wedi Cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 2.20 | 12.39% | 60.00% | 0.00% | Do |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.49 | 25.28% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.70 | 20.83% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 0.00% | 75.00% | 0.00% | Do |
| 10 mlynedd a mwy | 7.37 | 41.50% | 100.00% | 0.00% | Do |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

### Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor

40 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng-flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* Eitem Agenda

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Medi 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Gweithgor Craffu ar y Gyllideb** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Aelodau am waith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys y mae'n rhaid ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "cytbwys" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff gwariant ei ariannu yn y tymor byr a'r tymor canolig.

3 Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys craffu ar agweddau ariannol ar fusnes yr Awdurdod, a chaiff hyn ei gyflawni drwy'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb dan arweiniad yr aelodau, a sefydlwyd yn 2023.

4 Trefnwyd bod y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn cyfarfod ar chwe achlysur rhwng Mehefin 2024 a Rhagfyr 2024.

5 Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau rhaglen waith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a'r gwaith a wnaed hyd at 31 Awst 2024.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Nodi cylch gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb;
ii. Nodi dyddiadau cyfarfodydd a'r rhaglen waith ar gyfer 2024; a
iii. Nodi'r gwaith a wnaed hyd at 31 Awst 2024.

**CEFNDIR**

7 Mae’n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys y mae’n rhaid ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn cyn dechrau’r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "cytbwys" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff gwariant ei ariannu yn y tymor byr a'r tymor canolig.

8 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, canolig a hir yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o’r ffactorau allweddol sy’n effeithio ar gostau gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Yn ganolog i hyn mae dealltwriaeth o ofynion y gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael a'r weledigaeth strategol yn y dyfodol.

9 Pennir cyllideb refeniw'r Awdurdod ym mis Ionawr bob blwyddyn sy'n cadarnhau'r ardoll ar gyfer pob awdurdod lleol sy’n rhan o’i gyfansoddiad. Y dyddiad cau statudol ar gyfer cadarnhau'r ardoll yw 15 Chwefror bob blwyddyn.

10 Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn chwarae rhan ganolog wrth graffu ar y broses o osod cyllideb yr Awdurdod gan gynnwys craffu ar elfennau incwm a gwariant.

**GWYBODAETH**

11 Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Gweithgor Craffu ar y Gyllideb 2024 ar 24 Mehefin 2024 gyda'r Cynghorydd Mark Young yn gadeirydd. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth o bob awdurdod lleol. Nodwyd bod pwysau costau a heriau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gael sicrwydd bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddeall y ffactorau sy’n effeithio ar gostau a bod cynigion cyllideb y dyfodol yn cael eu hystyried yn rhesymol. Yn ystod y cyfarfod hwn cymeradwywyd y Cylch Gwaith a nodir yn Atodiad 1.

12 Yn y cyfarfod ym mis Mehefin 2024, cadarnhaodd yr Aelodau hefyd ddyddiadau'r cyfarfodydd a'r rhaglen waith i alluogi craffu digonol ar elfennau allweddol o incwm a gwariant cyn i gynigion y gyllideb gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Ionawr 2025.

13 Yn ogystal â'r rôl o graffu ar y broses o bennu’r gyllideb, derbyniodd yr Aelodau hefyd adroddiad mewn perthynas â chydymffurfio â phrosesau ariannol. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar y trefniadau ar gyfer sicrhau’r defnydd o archebion prynu i gadarnhau ymrwymiadau ariannol. Mae'r broses hon yn sail i'r gwaith monitro ariannol ac yn cefnogi llywodraethu da. Cydnabu'r Aelodau y gwaith sy'n cael ei

wneud i wella cydymffurfiaeth, a chefnogwyd y dull "dim archeb brynu, dim tâl" i sicrhau mai dim ond gydag archeb brynu ddilys y bydd taliadau'n cael eu gwneud.

14 Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ar 20 Awst 2024 gyda swyddogion yn rhoi gwybodaeth am gostau'r gyflogres, risgiau halogiad, materion amgylcheddol a'r ddarpariaeth hyfforddi.

15 Roedd y wybodaeth ynglŷn â'r gyflogres yn rhoi trosolwg o'r lefelau llu presennol, gan nodi bod yna swyddi gwag yn y rolau wrth gefn ac amser llawn yn ogystal â staff y gwasanaethau corfforaethol. Nododd yr Aelodau fod dyfarniad cyflog 2024/25 yn ddyledus ar gyfer staff sydd wedi'u cyflogi ar delerau ac amodau'r llyfr gwyrdd. Yn ogystal, nodwyd bod setliad cyflog 2024/25 ar gyfer staff ar y system dyletswydd ar alwad yn cynnwys codiad o hyd at 50% i'r elfen gadw, sy'n bwysau cost blwyddyn gyfan heb ei gyllidebu o oddeutu £1m. Mae'r aelodau wedi gofyn i ragor o waith gael ei wneud o fewn y maes gwariant hwn.

16 Cafodd yr aelodau gyflwyniad gan y Pennaeth Gweithrediadau Technegol yn nodi'r gwaith cenedlaethol sy'n cael ei wneud i leihau amlygiad diffoddwyr tân gweithredol i halogion a mesurau iechyd a diogelwch eraill. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys heriau diweddar mewn perthynas ag oedi o ran cyflenwadau, a nododd yr Aelodau'r mesurau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau a rheoli'r costau cysylltiedig. Mae hwn yn faes lle mae ymchwil yn parhau a rhagwelir diweddariadau pellach.

17 Ar ôl i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r Strategaeth Amgylcheddol a'r Cynllun Datgarboneiddio Tanwydd, derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad gan Reolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod 2024/25 i gyflwyno tanciau olew llysiau wedi'i drin â dŵr mewn lleoliadau allweddol. Nododd yr aelodau'r cynllun ond gofynnwyd am sicrwydd pellach ynghylch costau'r tanwydd cyn ei weithredu. Rhoddwyd diweddariadau pellach ynglŷn â'r angen i ddisodli systemau gwresogi diffygiol mewn gorsafoedd tân. Bydd y cynlluniau hyn yn destun achosion busnes mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, gan nodi, lle bo modd, y ceisiwyd cyllid grant yn y lle cyntaf.

18 Mae darparu hyfforddiant ar gyfer diffoddwyr tân gweithredol a phenaethiaid digwyddiadau yn faes allweddol o wariant nad yw'n gysylltiedig â chyflog, a chafodd yr Aelodau gyflwyniad gan y Pennaeth Hyfforddiant yn amlinellu'r rhesymeg dros yr hyfforddiant a'r risgiau cysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys trosolwg o'r cymwyseddau allweddol sydd eu hangen ar bob diffoddwr tân, gan gynnwys yr angen am ddatblygiad parhaus. Nododd yr aelodau'r costau a'r risgiau cysylltiedig, gan ofyn am sicrwydd pellach ynghylch rhesymoldeb y

costau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "hwyluso gwasanaethau tân ac achub o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi ei integreiddio'n well fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Mae'r gweithgor yn cefnogi datblygiad y gyllideb ac yn rhoi sicrwydd bod craffu wedi digwydd. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod Tân ac Achub bennu cyllideb gytbwys sy'n ei alluogi i gyflawni amcanion y sefydliad. |
| Staffio | Mae pennu cyllideb gadarn yn sicrhau bod costau staff yn cael eu hystyried yn llawn, fel bod modd datblygu cynlluniau gweithlu. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Mae datblygiad y gyllideb yn seiliedig ar gynlluniau gwasanaeth sy'n ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol. |
| Risgiau | Mae nifer o risgiau ac ansicrwydd yn bodoli mewn perthynas â chyllidebau'r dyfodol, sy'n cynnwys dyfarniadau cyflog, cynnydd chwyddiannol mewn gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, a risgiau cyfraddau llog. Mae'r broses o bennu cyllideb yn cefnogi'r cynllunio tymor byr, canolig a hir ac yn helpu i gyflawni amcanion y sefydliad. |

**Atodiad 1 – Cylch Gwaith**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Gweithgor Craffu ar y Gyllideb**

| CYLCH GWAITH / TERMS OF REFERENCE |
|---|

| | |
|---|---|
| **1. ENW'R CYFARFOD / *NAME OF MEETING*** | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Gweithgor Craffu ar y Gyllideb |
| **2. CADEIRYDD / *CHAIRPERSON*** | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio |
| **3. IS-GADEIRYDD / *VICE-CHAIRPERSON*** | Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio |
| **4. YN ATEBOL I / *REPORTS TO*** | Y Pwyllgor Archwilio |
| **5. AMLDER CYFARFODYDD / *FREQUENCY OF MEETINGS*** | - Chwe chyfarfod rhwng Mehefin a Rhagfyr 2024 |
| **6. FERSIWN A DYDDIAD / *VERSION AND DATE*** | Fersiwn 2<br><br>24 Mehefin 2024 |

| 7. PWRPAS Y CYFARFOD / *PURPOSE OF THE MEETING* |
|---|
| Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn weithgor dan arweiniad yr Aelodau sy'n cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, gyda chefnogaeth Trysorydd yr Awdurdod.<br><br>Gyda'r Aelodau'n cynrychioli pob un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r Awdurdod, pwrpas y grŵp yw gweithredu fel craffwyr ar agweddau ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub. Yn benodol, bydd y gwaith craffu yn canolbwyntio ac yn ystyried cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod ac yn cael dealltwriaeth gyffredinol o'r risgiau a'r asesiad ariannol. |

| 8. AMCANION Y CYFARFOD / *OBJECTIVES OF THE MEETING* |
|---|

- Craffu ar bob maes gwariant, gan geisio eglurhad a sicrwydd yn ôl yr angen.
- Cael dealltwriaeth ddigonol o'r materion sylfaenol sy'n berthnasol i agweddau ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub a'i allu i gyflawni ei amcanion.
- Ystyried cyflawnrwydd a rhesymoldeb yr asesiad cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'r risgiau cysylltiedig.
- Ystyried cadernid y cynigion ar gyfer y gyllideb a gallu'r Awdurdod i gyflawni arbedion yn erbyn y cynigion cyllideb hyn.
- Cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad llawn i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses o bennu cyllideb flynyddol.
- Ymdrin â materion allweddol / dadleuol yn ddigon trylwyr i ganiatáu i aelodau'r Gweithgor gyfathrebu yn eu cylch gydag aelodaeth ehangach GTAGC ac aelodau Cabinet eu Hawdurdodau Lleol, ac ati.

| 9. AELODAU / *MEMBERS* | |
|---|---|
| **Swydd / *Position*** | **Yn Cynrychioli / *Representing*** |
| Cadeirydd, y Cynghorydd Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |
| Is-gadeirydd, y Cynghorydd Gwynfor Owen | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Cynghorydd Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd Gareth Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd Bryn Apsley | Cyngor Sir Wrecsam |
| Gall Aelodau eraill o'r Pwyllgor Archwilio fod yn bresennol hefyd | |
| Dafydd Edwards, Trysorydd | Cynghorydd proffesiynol i'r Awdurdod |

| 10. BUDD-DDEILIAID / *STAKEHOLDERS* |
|---|

- Awdurdod Tân ac Achub
- Awdurdodau lleol cyfansoddol
- Tîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth

| 11. TREFNIADAU GWEITHREDU / *OPERATING ARRANGEMENTS* |
|---|

- Bydd gwaith y grŵp yn cael ei gynnal dros chwe chyfarfod a drefnwyd rhwng mis Mehefin a Rhagfyr 2024
- Mae'r dyddiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw;
- Mae'r Cadeirydd yn gofyn am eitemau agenda ymlaen llaw;
- Gellir cynnal cyfarfodydd yn gorfforol neu ar-lein yn dibynnu ar yr amgylchiadau;
- Mae camau gweithredu a phenderfyniadau allweddol yn cael eu nodi a'u dosbarthu i'w datblygu ar ôl y cyfarfod.

| 12. ADDASU'R CYLCH GWAITH / *AMENDING THE TERMS OF REFERENCE* |
|---|

- Bydd y Cylch Gwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol

**Atodiad 2 – Rhaglen Waith**

| | 24-Mehefin- | 20-Awst- | 30-Medi- | 23-Hyd- | 14-Tach | 12-Rhag |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnig cyllideb 25/26 - cyflog | | **x** | | | **x** | |
| Peiriannau ag Ysgol ac Esgynlawr; | | | **x** | | | |
| Benthyca | | **x** | | | | |
| Rhagdybiaethau gosod cyllideb | | | **x** | | | |
| Achosion busnes cyfalaf | | | **x** | | | |
| Adroddiad Cydymffurfiaeth | **x** | | | **x** | | |
| Rheoliadau halogion ac Iechyd a Diogelwch | | **x** | | | | |
| Gwelliannau amgylcheddol | | **x** | | | | |
| Cynigion terfynol y gyllideb | | | | | **x** | |
| Effaith ariannol - Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys | | **x** | | | | |
| Drafft cyntaf o ofynion y gyllideb | | | | **x** | | |
| Tybiaethau ariannu a Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig | | **x** | | | | |
| Aelodaeth | **x** | | | | | |
| Cerbydau nad ydynt yn Gerbydau Brys | | | | **x** | | |
| Trosolwg o adeiladau ar brydles | | | | | | |
| Dyfarniad cyflog cyflogres 2024-25 | **x** | | | | | |
| Pensiwn - diweddariad ariannu | **x** | | | | | |
| Pensiwn - heriau cyfreithiol | | **x** | | | | |
| Gofyniad Offer Gwarchod Personol | | | | **x** | | |
| Cyflogres System Dyletswydd ar Alwad | **x** | | | | | |
| Achosion busnes refeniw | | | **x** | | | |
| Y Gofrestr Risg | **x** | | | | **x** | |
| Uned Achub Dechnegol | | | **x** | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cylch Gwaith | **x** | | | | | |
| Achos Busnes y Ganolfan Hyfforddi | | | **x** | | | |
| Darpariaeth hyfforddiant | | **x** | | | | |